CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 04.04.2018 AM 7.15 YR HWYR, YN CAPEL CAEATHRO, CAEATHRO.

Presennol – Cynghorwyr

Edgar Owen(Cadeirydd)
Liz Daniel
Erddin Llwyd
Delyth Jones
Sali Burns
Iwan Davies
Shoned Rees Griffith (cofnodi)

1. Croeso'r Cadeirydd - Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol. Llongyfarchiadau i Menna a Tudur ar enedigaeth Osian Llewelyn.

2. Ymddiheuriadau – Eurig Wyn, Cadi Jones, Menna Jones, Cain Thomas, Doug Jones.

3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

4. Derbyn Cofnodion 21.02.2018

Y Cyng ELl yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng LD yn eilio.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion 21.02.2018

Materion Caeathro –
Ffordd Osgoi Bontnewydd – Dal i aros ymateb gan Llywodraeth Cymru, bydd y gwaith ddim yn cychwyn yn mis Gorffennaf bellach.
Mainc Caeathro. – Cyng SB wedi holi Martin Parry a mae am beintio y fainc pan fydd y tywydd yn well.
Drost y ffordd i Cefn Rhos, Caeathro – ar raglen Cyngor Gwynedd i'w ail wynebu yn mis Mehefin.
Biniau Baw ci – aros ymateb Cyngor Gwynedd.

Materion Waunfawr –
Biniau – aros Cyngor Gwynedd.
Tacluso Pentref – Cyng ELL i holi os byddai gan yr Urdd yn y pentref ddiddordeb i fynd o amgylch i dacluso y pentref gyda'r Cyngor Cymuned pan fydd y nosweithiau yn olau.

Maes Parcio ger Ael y Bryn - Dim i'w adrodd ar hyn o bryd, Cyng EO i holi CCG am y gwaith.

Ffordd Ael y Bryn a Tref Eilian – Cyng EO wedi derbyn cwynion am geir yn parcio ar y troiad lawr Lon Ddwr, trigolion y tai drost y ffordd yn cael trafferth mynd a dod o'i tai.

Les tir tu ol i'r Ganolfan – Cyng ID wedi holi am brisiau ar gyfer trac beics gan Mac Venture, aros iddynt ddod yn ol gyda pris ar gyfer y trac beics, hefyd am gysylltu'n ol ar cwmni gwreiddiol.

Cae Aml-dywydd - Wedi derbyn e-bost gan y Swyddog Cyngor Gwynedd gyda'r adroddiad cyflwr y cae. Cyng EO i holi am grantiau cyn trefnu cyfarfod ar gyfer Swyddog y Cyngor, Cyng EO, Cyng ID a'r Cyng CT.

Golau fflachio bob ochr i'r pentref – Aros i weld beth sydd yn digwydd gyda lleoliad y ganolfan iechyd newydd.

Cyflymder traffic drwy'r pentref a materion eraill –Clwb ar ol ysgol wedi paratoi y poster ar gyfer y gystadleuaeth, a'r clerc wedi anfon copi ymlaen i bawb. Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Cyngor Gwynedd y bydd ffordd Ael y Bryn yn 20m.y.a hefyd.

Diffib - clerc wedi anfon llythyr allan i fusnesau lleol i ofyn am gyfraniad tuag ar y diffib erbyn diwedd Ebrill.

Clwb Ieuenctid - Clerc wedi cadarnhau gyda Cyngor Gwynedd bod y Cyngor Cymuned yn hapus i dalu rhent y Clwb i ddefnyddio y Ganolfan yn Waunfawr ar gyfer cynnal y Clwb un noson yr wythnos.

Gwefan y Cyngor Cymuned - Clerc wedi anfon y gwybodaeth i gyd ymlaen i gwmni Smala yn yr iaith Gymraeg. Wedi anfon e-byst wedyn yn holi am ddatblygiad, ond heb dderbyn ymateb. Bydd rhaid cael y wefan yn fyw cyn gynted a phosibl gan ei bod bron yn amser Archwiliad eto eleni.

6. **Gerddi Bach –** Aros Grwp Cynefin am ddiweddariad ynglyn a'r safle. Cyng ID wedi derbyn pris o £16,321.00 am y cae chwarae a'r gwaith ffensio o amgylch y cae. Clerc wedi rhannu copi o'r cynlluniau, trafodwyd yn y cyfarfod a cynnigwyd gan y Cyng Liz Daniel ac eilwyd gan y Cyng SB ein bod yn hapus i gario'n 'mlaen gyda'r gwaith o gymryd i ystyriaeth ein bod wedi derbyn pris o £67,000 ychydig flynyddoedd yn ol i ddarparu cae chwarae a'r y safle. Mae'r nwyddau yma yn wahanol i gau chwarae arferol.

7. **Safle Glyn Rhonwy –** Dim newid i'r hyn a nodwyd yn ein cyfarfod diwethaf.

8. **Adroddiadau**

a. **Lloches Bws** -Clerc wedi methu dod o hyd i'r tri pris ar gyfer adnewyddu'r wal a dderbyniwyd flwyddyn yn nol, dim ond yr hyn a gofnodwyd yn ein cofnodion. Clerc i gysylltu a R G Owen, sef y pris rhataf i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r Cyng EO er mwyn trafod y gwaith. Heddlu wedi trefnu i symud y car o'r maes parcio.

b. **Y Fynwent -** Dal i ddisgwyl am ateb gen Geraint Owen ynglyn a gwerthu darn o dir ar gyfer y dyfodol. Aros anfoneb am y gwaith o atgyweirio y feinciau. Yn dilyn derbyn un pris ar gyfer dymchwel y cwt –
G R Services - £2,720.00, clerc dal heb dderbyn pris ar bapur gan M Sykes er ei bod wedi gofyn nifer o weithiau, oherwydd hyn penderfynwyd symud ymlaen gyda'r gwaith gyda G R Services, cynnigwyd gan y Cyng SB ac eilwyd gan y Cyng ID. Mynegwyd gan y Clerc nad oedd prisiau claddu yn y fynwent wedi eu hadolygu ers 2013/14. Trafodwyd a penderfynwyd codi y ffioedd 10%. Cynnigwyd gan y Cyng SB ac eilwyd gan y Cyng DJ.

c. Toilet - Dim

ch. Llwybrau Cyhoeddus – Wedi cael map o'r llwybrau i gyda a'r un darn o bapur. Cyng DJ wedi holi os gall wneud copis, mae printar ar gael ond byddai rhaid prynu inc fyddai'n gost o £60.00. Cyng EO i holi Geraint, Panorama a Gwynant Parry.

d. Y Ganolfan – Pwyllgor Ganolfan wedi ei sefydlu rwan a bydd y cyfarfod nesaf 11.04.2018.

9. Materion Cynllunio

a. Ceisiadau newydd

Dyddiad Cofrestru	Bwriad	Lleoliad	Rhif Cais	Sylwadau

10. Gohebiaeth

Steve Morgan - Funding Available for people with Disablities
HSBC - Commercial Customer on 1 July 2018
Swyddog Diogelu Data - Clerc wedi rhannu e-byst gyda'r Cynghorwyr. Cyngor Cymuned Llandwrog wedi gofyn i Unllais am arweiniad pellach, aros eu hymateb cyn **trafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf**, ond mae'n ofynol i Swyddog Diogelu Data fod yn ei le erbyn 25 Mai.
PAYE or not PAYE - cytuno gyda Cyngor Llandwrog - angen ei **drafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf.**
MacVenture Play co. - pris o £16,321 ar gyfer y parc chwarae i Gerddi Bach

11. Mantolen 2017/18 ac Asesiad Risc a Rheolau Mewnol

Cynnigwyd fod y mantolen yn gywir gan y Cyng LD ac eilwyd gan y CyngDJ .

Cadarnhawyd fod Asesiad Risc ac Adolygiad o Reolau Mewnol y Cyngor yn gywir am y flwyddyn a derbyniwyd. Trafodwyd a penderfynwyd penodi Cyngor Gwynedd fel archwilydd mewnol am eleni, clerc i gysylltu a hwy.

12. Materion Ariannol

12.1 Arian wedi ei dalu allan

Cyngor Gwynedd – Bin brown	£33.00
G P Electrical Services	£221.30
Eifion Roberts	£80.00
G R Services	£417.00
Eglwys y Waun	£75.00
Skyline	£100.00
Cyflog Clerc Mawrth	£258.00
H M Revenue & Customs	£52.00
Aelodaeth Unllais	£207.00

12.2 Arian a dderbyniwyd

12.3 Anfonebau i'w talu

Cyflog Clerc Ebrill	£258.00
H M Revenue & Customs	£52.00
B Owens	£36.00
T Brown	£36.00

13. Grantiau/Rhoddion

Eisteddfod Genedlaethol	£50.00
Gwyl Gerdd Dant - Blaenau	£50.00
Cylch Meithrin Bontnewydd	£300.00
Ambiwlans Awyr Cymru	£100.00
Seindorf Arian Dyffryn Nantlle	£50.00
Eisteddfod Genedlaethol Urdd	£50.00
Theatr Bara Caws	£150.00

14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Cyfarfod nesaf – 16.05.2018 yn Festri Capel Y Waun, Waunfawr.

13. Materion Aelodau.

Cyng ID - Llwybr cyhoeddus heibio Bryn Melyn - wedi bod yn cael trafferthion yn ddiweddar rhywun yn gosod cerrig mawr yn ganol y ffordd sydd yn beryglus iawn pan wedi nosi i'w taro gyda car. Wedi argymell i gau'r giat gan mae llwybr troed sydd yn mynd heibio'r ty a mae camfa yna i bobl gael mynediad i'r llwybr. Mynd i fonitro y sefyllfa cyn anfon cwyn ymlaen i Cyngor Gwynedd.